

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – CÔR CAERDYDD**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio ym mha fodd y bydd Côr Caerdydd yn ymdrin (prosesu) â'ch gwybodaeth bersonol. Mae gofynion yr hysbysiad preifatrwydd i'w gweld yn y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

### **Casglu a defnyddio eich gwybodaeth [Erthygl 13(1)(c), (d); Erth. 13(2)(e)]**

Pan fyddwch yn ymaelodi â Chôr Caerdydd, byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol sydd ei hangen i brosesu eich cais i fod yn aelod:

- eich enw;
- eich cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost;
- eich llofnod;
- eich manylion banc os yn dewis talu tâl aelodaeth drwy archeb sefydlog;

Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais i ymaelodi.

Byddwn hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth wrth weinyddu eich aelodaeth barhaus o Gôr Caerdydd, gan gynnwys rhoi gwybodaeth am weithgareddau Côr Caerdydd yn ystod y flwyddyn, ac yn y ffyrdd canlynol:

- gweinyddu'r rhan o wefan Côr Caerdydd sy'n ymwneud ag aelodau;
- rhestrau mynychu digwyddiadau a rhannu e-byst ynglŷn â nhw;
- unrhyw gyhoeddiadau gan Gôr Caerdydd yr ydych yn cyfrannu atynt, neu eich presenoldeb yn un o ddiwyddiadau Côr Caerdydd gan gynnwys rhai a drefnir gan drydydd parti e.e. enwau neu ffotograffau mewn rhaglen a gyhoeddir, neu ar gyfer gofynion diogelwch lleoliad y perfformiad
- unrhyw gamau a wneir ar eich rhan, ar eich cais – e.e. trefniadau teithio a llety Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth am basbort.

Weithiau bydd angen gofyn am ragor o wybodaeth gennych (e.e. gofynion dietegol/mynediad) ar gyfer digwyddiadau a drefnir.

Byddwn hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth nid yn unig i roi gwybod i chi am ddiwyddiadau Côr Caerdydd, ond hefyd ddiwyddiadau a gydlynir gan sefydliadau cerddorol neu ddiwylliannol eraill o ddiddordeb. Fodd bynnag, ni fyddwn yn rhoi eich gwybodaeth i drydydd parti ac eithrio am y rhesymau a amlinellir yn yr hysbysiad hwn, neu gyda'ch cytundeb chi. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi o flaen llaw os fyddwn ni'n gwneud fideos neu'n tynnu ffotograffau mewn digwyddiad, neu os fydd trefnwyr digwyddiadau yn eich recordio neu'n eich ffilmio ar gyfer dibenion darlledu.

Mae'r defnydd o'ch gwybodaeth yn angenrheidiol ar gyfer y dibenion canlynol:

- budd cyfreithiol wrth weinyddu aelodaeth Côr Caerdydd, nad ydyw'n mynd y tu hwnt i fuddiannau na hawliau a rhyddid yr unigolyn;
- cynnig y gwasanaethau a gynigir gan Gôr Caerdydd, yn gyfnewid am dâl aelodaeth.

## **Rhannu eich gwybodaeth [Erth. 13(1)(e)]**

Byddwn yn rhoi eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i aelodau eraill Côt Caerdydd i annog rhannu gwybodaeth, neu i hwyluso cyfathrebu amdani, ac ar gyfer cynnig y gwasanaethau uchod.

Pan fydd Côt Caerdydd yn cyflawni gweithred ar eich rhan (e.e trefnu teithio neu archebu llety) byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth fel sy'n ofynnol i gwblhau'r weithred honno (e.e. gyda'r gwesty neu gwmni teithio).

Bydd y wybodaeth am eich aelodaeth hefyd ar gael i aelodau Pwyllgor Côt Caerdydd ar gyfer dibenion gweinyddol, cyfreithiol, cyfrifo, cymorth TChG neu brosiectau /digwyddiadau penodol – e.e. y Trysorydd ac ar gyfer dibenion cyfrifo blynyddol.

## **Cadw eich gwybodaeth [Erth13(2)(a)]**

Yn achos aelodau unigol, byddwn yn cadw'r wybodaeth am eich aelodaeth o Gôt Caerdydd drwy gydol yr aelodaeth honno, ac am gyfnod o dair blynedd ar ôl i'ch aelodaeth ddod i ben, oni bai eich bod yn dweud yn wahanol. Bydd hyn yn caniatáu i ni ailgychwyn aelodaeth sydd wedi dod i ben yn ddifwriad.

Byddwn yn cadw pob cyhoeddiad a phapurau'n ymwneud â chynnig gwasanaethau Côt Caerdydd am gyfnod amhenodol.

## **Trosglwyddo eich gwybodaeth dramor [Erth, 13(1)(f)]**

Bydd Côt Caerdydd yn uwchlwytho deunydd yn cynnwys gwybodaeth bersonol (e.e. ffotograffau / fideo o berfformiadau a dolenni i recordiadau sain / CD o berfformiadau) i'n gwefan, a gynhelir yn y DU. Dewis unrhyw un sy'n edrych ar y wefan fydd penderfynu a ydyw am lawrlwytho a throsglwyddo deunydd o'r wefan ai peidio. O ran hynny, ni fydd Côt Caerdydd yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i awdurdodaeth y DU.

## **Eich hawliau [Erth. 13(2)(b)]**

Mewn achos o brosesu angenrheidiol ar gyfer budd dilys wrth weinyddu aelodaeth Côt Caerdydd, mae'r hawliau canlynol ar gael i chi (yn amodol ar eithriadau):

- hawl i weld eich data personol;
- hawl i gywiro data personol sy'n anghywir;
- hawl i ddileu data personol;
- hawl i gyfyngu ar brosesu'r wybodaeth;
- hawl i wrthwynebu prosesu data personol; a,
- hawl i beidio bod yn destun penderfyniad awtomataidd

Mae'r hawliau uchod i gyd ar gael i chi lle mae'r prosesu'n angenrheidiol i gyflawni'r contract rhyngoch chi a Chôt Caerdydd, ac eithrio'r hawliau canlynol:

- yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol; a'r
- hawl i beidio bod yn destun penderfyniad awtomataidd

**At bwy i gysylltu os ydych yn anfodlon [Erth.13(1)(a),(b),13(2)(d)]**

Côr Caerdydd yw'r rheolwr data at ddibenion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys prosesu gan unrhyw broseswyr data a benodir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â phrosesu data personol gan Gôr Caerdydd, neu os ydych am ymarfer unrhyw hawliau a nodir uchod, dylech gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cerdd ar y manylion isod:

Cyfarwyddwr Cerdd: Gwawr Owen Roberts  
E-bost/ffôn: [gwawr@corcaerdydd.com](mailto:gwawr@corcaerdydd.com) / 029 20691924

Os ydych yn parhau'n anfodlon, gallwch gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru):

Cyfeiriad post: 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH  
Gwefan/ffôn/e-bost: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk) / 029 20678400 / wales@ico.org.uk

**[Tynnu cydsyniad yn ôl [Erth. 13(2)(c)] – Dd/B]**

**[Prosesu gwybodaeth yn awtomataidd [Art 13(2)(f)] – Dd/B]**